*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*
# *RHONDDA CYNON TAF*
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

## GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR

C Hanagan
Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt**:** Jess Daniel - Gwasanaethau Democrataidd (07385401877)

Bydd cyfarfod rhithwir o'r **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** yn cael ei gynnal ar **DYDD IAU, 7FED HYDREF, 2021** am **3.00 PM.**

MAE MODD I AELODAU NAD YDYN NHW'N AELODAU O'R PWYLLGOR AC AELODAU O'R CYHOEDD OFYN I ANNERCH Y PWYLLGOR YN YSTOD Y CYFARFOD SY'N YMWNEUD Â'R MATER SYDD WEDI'I NODI. RYDYN NI'N GOFYN EICH BOD CHI'N RHOI GWYBOD AM EICH BWRIAD I SIARAD DRWY E-BOSTIO **GWASANAETHAUCYNLLUNIO@RCTCBC.GOV.UK** ERBYN 5PM AR DYDD MAWRTH, 5 HYDREF 2021, GAN NODI A FYDDWCH CHI'N SIARAD YN GYMRAEG NEU'N SAESNEG.

MAE'N BOSIB BYDD TREFN YR AGENDA'N NEWID ER MWYN HWYLUSO BUSNES Y PWYLLGOR.

## AGENDA

**Tudalennau**

### 1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

**Nodwch:**

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr eitem mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

**2.** **DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU**

Nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu materion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

**3.** **DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

Nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

**4.** **COFNODION 26.08.21**

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 26 Awst 2021.

**5 - 8**

**<u>CEISIADAU A ARGYMHELLIR AR GYFER EU CYMERADWYO GAN Y CYFARWYDDWR MATERION FFYNIANT A DATBLYGU</u>**

**5.** **CAIS RHIF: 20/0233**

Bwriad i addasu ac ychwanegu estyniad 3 llawr i'r adeilad swyddfa presennol i ddarparu 10 uned breswyl ac 1 uned fasnachol (siop goffi/caffi). (Derbyniwyd adroddiad arolwg ystlumod 02/09/2021)
**YR HEN ADEILADU CYFRADDAU, 42/43 Y STRYD FAWR, ABERDÂR, CF44 7AA**

**9 - 26**

**6.** **CAIS RHIF: 20/1365**

3 Anheddau ar wahân gyda 4 ystafell wely, pob un â lle parcio oddi ar y ffordd ar gyfer 3 char. (Ailgyflwyno cais 19/0449/10) (Derbyniwyd yr Adroddiad Ecoleg ar 5 Rhagfyr 2020. Derbyniwyd cynlluniau diwygiedig, lleihau maint ffin y safle ac ail-leoli anheddau arfaethedig ar 5 Ionawr 2021. Derbyniwyd cynllun diwygiedig, gan ychwanegu stribed bioamrywiaeth / ecoleg, 14 Ebrill 2021).
**TIR GER BRYNLLAN, FFORDD TREBANOG, TREBANOG, PORTH, CF39 9DU**

**27 - 44**

**ARCHWILIAD O'R SAFLE**

**7. CAIS RHIF: 21/0431**

Amrywio amod 2 (cynlluniau wedi'u cymeradwyo) i ofyn am ganiatâd ar gyfer lleoliad adeilad, uchder adeilad, cwrt blaen a chladin allanol diwygiedig. (Cais gwreiddiol 19/0791/10). (Derbyniwyd cynlluniau diwygiedig ar 02/08/21)
**UNED STORIO ODDI AR HEOL Y BEDDAU, PONTYPRIDD, CF38 2AG**

**45 - 58**

**8. CAIS RHIF: 21/0635**

Byngalo 3 ystafell wely ar wahân gyda pharcio ar gyfer 3 char (Yn effeithio ar Hawl Tramwy Cyhoeddus PON/4/1).
**FFERM BODWENARTH, LLYS YR ALBION, CILFYNYDD, PONTYPRIDD, CF37 4JA**

**59 - 72**

**CEISIADAU WEDI'U GOHIRIO**

**9. CAIS RHIF: 21/0809**

Trosi llofft dormer cefn arfaethedig, cyntedd blaen ac estyniad i'r gegin.
**38 CLOS MYDDLYN, BEDDAU, PONTYPRIDD, CF38 2JS**

**73 - 80**

**10. CAIS RHIF: 21/0058**

Tŷ ar wahân gyda garej ddwbl.
**HEN SAFLE GLEN TRANSPORT, HEOL PENYCOEDCAE, PENYCOEDCAE, PONTYPRIDD**

**81 - 100**

**11. CAIS RHIF: 21/0335**

Newid defnydd siop wag i fflat hunangynhwysol, ehangu ffenestr 'dormer' gefn a gwaith cysylltiedig (derbyniwyd cynlluniau diwygiedig ar 11/05/2021).
**90 STRYD Y FRENHINES, TREFFOREST, PONTYPRIDD, CF37 1RN**

**101 - 110**

**12. CAIS RHIF: 21/0720**

Parhau â gwaith cloddio a gweithrediadau cysylltiedig heb gydymffurfio ag amodau 1 i 4 ac amodau 45 a 46 a osodwyd ar atodlen o amodau Adolygiadau o Hen Ganiatadau Mwynau (ROMP) Deddf yr Amgylchedd a gyhoeddwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar 24 Ebrill 2013 cyf: 08/1380/10
**CHWAREL CRAIG YR HESG, HEOL BERW, PONTYPRIDD, CF37 3BG**

**111 - 152**

## ADRODDIAD ER GWYBODAETH

**13.** **GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

Rhoi gwybod i Aelodau am y canlynol, ar gyfer y cyfnod 06/09/2021 – 24/09/2021

Penderfyniadau Cynllunio a Gorfodi – Apeliadau a Dderbyniwyd.
Penderfyniadau Dirprwyedig – Ceisiadau wedi'u cymeradwyo a'u gwrthod gyda rhesymau.

**153 - 168**

**14.** **MATERION BRYS**

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn rhai brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

**Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu**

**Cylchrediad:-**

**Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu:**

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu
(Y Cynghorydd S Rees a Y Cynghorydd G Caple)

Y Cynghorydd J Bonetto, Y Cynghorydd P Jarman, Y Cynghorydd D Grehan,
Y Cynghorydd G Hughes, Y Cynghorydd J Williams, Y Cynghorydd W Owen,
Y Cynghorydd D Williams, Y Cynghorydd S Powderhill ac Y Cynghorydd W Lewis

Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi
Pennaeth Cynllunio
Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Uwch Beiriannydd